

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Chwefror 2018.

1. **Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), OP Huws, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Erfyl Williams, Dylan Herbert, Justin Davies, Barry Bracegirdle – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Ffion Jones – Nantlle. Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cyngorwyr Sir/ **Ymddiheuriadau** – Dafydd Jones – Talysarn.
 2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Ni gymerodd y Cyngorwyr sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio yn ystod y cyfarfod.
 3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Ionawr.** Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion a Barry yn eilio.
 4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Barry ac Erfyl wedi cyfarfod yn Cwtin er mwyn asesu'r cae. Canfyddiadau: cae yn wlyb ofnadwy, coed helyg yn tyfu yn y pen draw. Roedd i'w weld yn bosib i dorri'r cae yn yr haf, ond gwelwyd nad yw'n addas i chwarae arno heb waith draenio. Angen cysylltu efo cyfreithiwr y Cyngor i lythyru Cyngor Gwynedd am y gwaith lefelu a gafwyd ei wneud ar y cae yn sgil y ffordd osgoi – pryder nad yw'r cae yn draenio ers hynny. Angen darganfod beth fu'r iawndal ar y pryd. Gofynwyd i Judith godi hyn i ddechrau efo Cyngor Gwynedd, ac i ddod i edrych dwyr'r ffeil ffordd osgoi gyda'r Clerc.
Dylan wedi bod yn gwneud ymholiadau am brisiau cyflenwad trydan ar bolion lamp ar gyfer goleuadau Nadolig. Byddai ffi 'one-off' a chyfraniad wedyn am y trydan ar gyflenwad 'un-metred'. Dylan am gysylltu efo Dale a gweld lle sa orau i'w gosod nhw.
 5. **Cyngorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad gan y Judith a gan Craig. Ymhlith yr hyn a drafodwyd – bydd yr ardal ailgylchu ym Mhenygroes yn cael ei monitro yn fwy aml, a mae cynlluniau i gael camera yno. Gofynwyd i'r Cyngorwyr am eu barn ar dreialu cael cyflenwad bagiau baw cwn ar bolion lamp – cytuno i'w cael ar ryw 2 bolyn i ddechrau a gweld sut mae'n mynd. Trafodwyd y sefyllfa gwasanaeth bws, a dywedwyd fod cymhorthfa wedi cael ei gynnal yn Nebo/Nasareth. Trafodwyd y broblem o faw cwn, a bod angen meddwl am rhywbeth newydd gwahanol i drïo tacló'r broblem. Trafodwyd Glynllifon – y Cyngor Cymuned yn boenus am y dyfodol efo datblygiadau twristiaeth. Ysgrifennu at Sioned Williams, Cyngor Gwynedd i holi beth yw eu bwriad nhw efo Glynllifon – angen trafodaeth. Gofynwyd i Craig fynd a'r neges o'r Cyngor Cymuned a bod angen mwy o drafodaeth yn lleol
 6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cafwyd y daflen ariannol yn gywir.
 7. **Materion yn Codi o'r cyn-gofnodion.**
 8. **Cyfraniadau Ariannol Adran 137.** Penderfynwyd cyfrannu £150 yr un i'r mudiadau canlynol, ar yr amod iddyn nhw gyflwyno cyfrifon/maentolen ariannol i'r Cyngor: Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni; Cruisers Talysarn; Neuadd Goffa Llanllyfni; Iwth Pen; Dyffryn Nantlle 2020; Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth; Taith Tractorau Dyffryn Nantlle; Treialon Cwn Defaid Llanllyfni; Clwb y Caban; Grwp Blodeuwedd; Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle; Papur Bro Llew; Clwb Pel Droed Llanllyfni. 13 x £150 = £1950.
 9. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio / Tendr llwybrau a mynwentydd.** Tendrau – tri tendr i law. Ifan ac Idris yn fuddugol. Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gostau gwaredu gwastraff – cytuno mewn egwyddor. Gostyngiad yn y gost wedi ei sicrhau drwy gydweithio. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn rhoi rhyddid i'r Cadeirydd, Clerc a'r Cyngorydd Harry Wyn Owen ychwanegu manion at y gwaith mynwentydd, hyd at £450, heb fynd i bwyllgor llawn.
 10. **Cynllunio.** C18/0008/22/LL – Glan Gors, Llanllyfni – codi estyniadau amrywiol. Cymeradwyo.
 11. **Gohebiaeth.**
- *Cyngor Gwynedd:.**
*Ymatebion – darllenwyd yr ymatebion. Cwynion fod ysbwriel ailgylchu yn dod allan o'r lori ailgylchu.
*Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol. Er gwybodaeth.
*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – gwahardd a chyfyngu manau parcio ar y stryd. Rhannwyd yr wybodaeth.
*Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon. Er gwybodaeth.
*Swyddog Adfywio Gwyrfaei – Kelvin yn dod yn ol i'r swydd.

*Cynllunio – ymgynghori drwy ebost – system newydd o ymgynghori gan y Parc Cenedlaethol – er gwybodaeth.

***Arall**

*Cymorth Cynllunio Cymru – hyfforddiant 20/2/18

*Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar Gyfer Sir Gwynedd – gwrthwynebu symud Nebo o blwyf Llanllyfni – ysgolion yn cydweithio yn y dalgylch hon Nebo/Llanllyfni/Baladeulyn/Penygroes. Yn hanesyddol - yr hen enw ar Nebo oedd Mynydd Llanllyfni.

*Cynllun Datblygu Lleol Eryri – diweddariad. Er gwybodaeth.

* Un Llais – Cynigion Troseddu a Pherfformiad Gwasanaeth Gwastraff; Diogelu Data – rhannwyd yr wybodaeth – bydd angen penodi swyddog diogelu data annibynnol; Bee Friendly Scheme; Bwletin Newyddion; Cyfoeth Naturiol – Arolwg; Ymgynghoriad 2018 Cod Ymarfer Archwilio; Trethi Cymreig; Cylchlythyr Hybu Cymraeg; Paratoi'r Gyllideb; Comisiynydd Cenedlaethol – dyfodol; Adroddiad Grwp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Betsi Cadwaladr; Ombwdsman; Dileu Ffioedd Claddu Plant.

*Panel Adolygu – gwahoddiad. OP yn mynychu ar y 6ed o Fawrth.

12. **Mynwent St Rhedyw** Adroddiad yn dilyn y cyfarfod safle gyda warden yr Eglwys. Mynychodd Dylan, Gwyndaf, Hefina, OP, Harry Wyn. Roedd cwynion am y cerrig man sydd wedi eu rhoi ar yr arwyneb uwch y beddi, draen wedi blocio a gyli. Dylan wedi gwneud ymchwil ar fynwentydd eraill. Y Cyngor wedi holi am bris i roi glaswellt yn lle'r graean. Dwr yn hel o flaen y giat a'r bolardaiau. Adolygwyd polisi mynwentydd y Cyngor, ac angen ychwanegu teitl 'Polisi Mynwentydd' at y ddogfen yn hytrach na chael y pennawd 'Rheolau Mynwentydd', gan mai hon yw'r ddogfen bolisi. Y Clerc i edrych am unrhyw ddogfennau sy'n dangos cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned parthed mynwent St Rhedyw. Penderfynwyd rhoi arwyddion ar giatiau'r mynwentydd i gyd i rybuddio am lwybrau anwastad – pris erbyn cyfarfod nesaf. Penderfynwyd newid pennawd crynodeb cofnodion Lleu yn 'Newyddion Cyngor Cymuned Llanllyfni' a nodi fod y cofnodion llawn ar wefan y Cyngor. Diolchwyd Dylan am ei waith caled.

13. **Clwb Pel Droed Talysarn – cais am gefnogaeth.** Darllenwyd yr ebost. Penderfynwyd cefnogi eu cais a gofyn wrthynt am gadarnhau pa ddefnydd fydd yn cael ei roi ar wyneb y llwybr. Hefyd gofyn am schedule of works.

14. **Archwilydd Mewnol** Roedd y Clerc wedi derbyn prisiau gan gyfrifwyr am y gwaith archwilio mewnol. Penderfynwyd penodi Archwilydd Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith am eleni. Y Clerc i gysylltu gyda hwy i gadarnhau.

15. Materion Pentrefi Talysarn Tyllau ar ffordd Bryncelyn; **Nantlle** Wal yn beryglus a ffens yn ffin Nantlle wrth Ffridd – gyferbyn a'r gilfan. **Penygroes** Tyllau ar y sgwar; Twll yn y clawr metal sydd ar y llawr wrth 6 Heol y Dwr; Gwli ar y gyffordd wrth Cynefin ddim yn cymryd dwr, ac y llifo i'r lon. **Llanllyfni** Twll dros y ffordd I Bryn Rhedyw, a thwll yng ngwaelod Maes Castell wrth yr 'hump'. **Nasareth a Nebo** Y pentref wedi gwneud cais am goed i'w rhoi ar y gors. Gofyn am ganiatad y Cyngor Cymuned . Y Clerc am edrych drwy ddogfennau Cors y Llyn efo Dafydd Thomas.

16. Llwybrau a Mynwentydd. Wedi cyrraedd y 4ydd rhes yn y darn newydd yn MacPelah, a pryder fod y llecyn yma yn llenwi yn sydyn. Gofynwyd i'r Clerc drïo cysylltu efo Mark Balaam eto, i drïo trefnu cyfarfod cychwynnol er mwyn bwrw ymlaen gyda'r brosiect ehangu'r fynwent; Gwastraff yn cael ei roi yn y biniau mynwentydd yn ogystal a gwastraff gwyrdd, er fod arwyddion. Angen wynebu'r broblem hon, a thrafod eto.

17. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim i'w adrodd.

18. Materion ariannol

Anfonebau – A Johnson – Ffon a Rhyngwyd £25; A Johnson – derbynebau; John Roberts – Archwilio £125; Cyngor Cymuned Llandwrog - £150.45 Tendro, Un Llais £605. Caniatau.